



Cofnodion Cyfarfod Busnes y Comisiynwyr

Dydd Iau yr 20^{fed} o Hydref 2016

Yr Ystafell Gynadledda, Aberystwyth

Presennol

Comisiynwyr: Eurwyn Wiliam (Cadeirydd), Catherine Hardman (Is-Gadeirydd), Mark Redknap, Christopher Williams, Thomas Lloyd, Caroline Crewe-Read

Staff: Christopher Catling (Ysgrifennydd), David Thomas, Gareth Edwards, Rhian Davies, Angharad Williams, Reina van der Wiel

Sylwedydd: Andrew George (Cadw)

Adran 1: Materion rhagarweiniol

- **Croesawodd** y Cadeirydd yr aelodau o'r cyhoedd a oedd wedi dewis sylwi ar y cyfarfod. Dywedodd wrth y rheiny a oedd wedi ymgynnull na fyddai sylwedyddion yn gallu cyfrannu at y trafodaethau, ond nododd y byddai amser wedyn i sylwedyddion drafod unrhyw sylwadau a oedd ganddynt gyda'r Comisiynwyr.
- Cyflwynodd pawb eu hunain.
- Siaradodd y Cadeirydd ar eitem nad oedd ar yr agenda ond a allai fod o ddiddordeb i'r cyhoedd: rhoddwyd i'r Comisiwn Brenhinol y dasg o lunio rhestr o enwau lleoedd hanesyddol Cymru. Eglurodd nad y Comisiwn fydd y corff fydd yn argymhell ffurfiau cywir; dim ond llunio rhestr o amrywiaeth eang o ffynonellau fyddwn ni.
- **Nododd** y Cadeirydd mai dyma'r cyfarfod ffurfiol cyntaf o'r Comisiynwyr yn ein swyddfeydd newydd yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

1.1 Ymddiheuriadau

Dim.

1.2 Datgan buddiannau

Dim.

1.3 Cymeradwyo cofnodion cyfarfod 20 Ebrill 2016

Cytunwyd bod y cofnodion yn gofnod gwir a chywir.

1.4 Materion yn codi

Eitem 11: Buom yn holi i ddarganfod a allem gofrestru ar gyfer statws Corff Ymchwil Annibynnol (CYA/IRO) a theimlem na allem fodloni'r meini prawf. Felly, yn lle hynny, rydym ni'n ceisio meithrin perthnasoedd â Chyrff Ymchwil Annibynnol eraill neu Brifysgolion. **Nodwyd** bod Historic England yn gwneud cais am statws CYA ar hyn o bryd ar y cyd ag English Heritage.

1.5 Busnes y Cadeirydd

- **Adroddodd** y Cadeirydd ar gyfarfod yr oedd ef a'r Ysgrifennydd wedi'i fynychu gyda'r Comisiynydd Staff Gwasanaethau Cyhoeddus (CSGC), corff newydd ei sefydlu sy'n gofalu am fuddiannau staff yn y sector cyhoeddus yng Nghymru. Rhai dyheadau yw adnabod staff ag uchelgais cryf yn y gwasanaeth sifil neu CNLCau a rhoi iddynt brofiad yn y sector ehangach. Rydym yn aros am wybodaeth bellach gan y CSGC.
- **Adroddodd** y Cadeirydd ar gyfarfod partneriaeth SWISH gyda'n partner Albanaidd ym mis Mehefin. Rydym ar hyn o bryd yn adolygu'r bartneriaeth hon. Comisiynwyd ymgynghorydd allanol, a chyflwynir yr adroddiad terfynol tua chanol Rhagfyr 2016.
- **Adroddodd** y Cadeirydd ar y cyfarfod chwemisol y bu iddo ef a'r Ysgrifennydd ei fynychu gydag Ysgrifennydd y Cabinet ym mis Gorffennaf 2016. Roedd Ysgrifennydd y Cabinet yn gadarnhaol iawn ynghylch yr adroddiad blynyddol a rhoddodd ganiatâd i ni fynd ati i recriwtio tri Chomisiynydd newydd.
- **Nododd** y Cadeirydd i ni lansio *The Archaeology of Upland Gwent – Archaeoleg Ucheldir Gwent* yn yr Eisteddfod.
- **Adroddodd** y Cadeirydd ar gyfarfod a fynychasai yn yr Eisteddfod Genedlaethol, wedi'i drefnu gan Gyngor Sir Gwynedd, ar gynnydd y cais i ennill statws Safle Treftadaeth Byd i'r diwydiant chwareli.
- **Adroddodd** y Cadeirydd ar agoriad ffurfiol da iawn ein swyddfeydd newydd yn ystod ein digwyddiad Drysau Agored ym mis Medi 2016.

- **Nododd** y Cadeirydd i nifer o Gomisiynwyr a'r Ysgrifennydd gyfarfod â chyfreithwyr ym mis Awst 2016 i drafod statws elusennol.
- **Adroddodd** y Cadeirydd a'r Ysgrifennydd ar yr Adolygiad o Wasanaethau Treftadaeth. Bydd y grŵp llywio'n cyfarfod deirgwaith cyn cyflwyno adroddiad i Ysgrifennydd y Cabinet ym mis Ionawr 2017. Ni phennwyd amserlen eto ar gyfer creu'r corff Cymru Hanesyddol newydd arfaethedig.
- **Hysbysodd** y Cadeirydd y Comisiynwyr ei fod wedi cael gwahoddiad i ddod yn Ymddiriedolwr Ymddiriedolaeth Ystrad Fflur. Byddai hyn ar lefel bersonol ac ni chredai fod unrhyw wrthdaro buddiannau â'i ddyletswyddau yn y Comisiwn.

Adran 2: Cyllid

2.1 Adroddiad Cyllid

- **Nododd** y Comisiynwyr ein bod ni wedi sicrhau grantiau ar gyfer Casgliad y Werin Cymru, ar gyfer cam datblygu'r prosiect Rhyfel Llongau Tanfor yr Almaen a gyllidir gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri, ac ar gyfer cyhoeddi *Archaeoleg Ucheldir Gwent*.
- **Nododd** y Comisiynwyr ein bod ni wedi derbyn cyllid cyfalaf ychwanegol derbynol iawn o £10k i brynu cyfarpar a dodrefn yn sgil yr adleoli, gan gynyddu ein cyllideb gyfalaf i £25k.
- **Nododd** y Comisiynwyr fod gwariant o dan reolaeth ar gyfer y chwe mis cyntaf ond bod y cyllidebau adeiladau, TG a chyfieithu yn peri peth pryder. Os bydd posibilrwydd o orwario, cymerir mesurau i sicrhau ein bod ni'n adennill costau erbyn diwedd y flwyddyn.
- **Nododd** y Comisiynwyr ein bod ni'n aros yn eiddgar am gyllideb 2017-18. Gan fod 75% o'n cyllideb yn cael ei wario ar gostau cyflog, bydd unrhyw ostyngiad yn cael cryn effaith.
- **Nododd** y Comisiynwyr y bydd y ffaith nad ydym yn disgwyl cynhyrchu unrhyw gyhoeddiadau mawr yn y dyfodol agos yn cael effaith ar ein hincwm.
- **Nododd** y Comisiynwyr fod yr arbrawf yn Lloegr yn 2013 i roi'r gorau i 'blynyddoldeb' yn cael ei ystyried yn llwyddiant. Byddai'r Comisiwn yn rhoi croeso mawr i newid cyffelyb yng Nghymru.

Gweithredu: Codi mater blynyddoldeb yng nghyfarfod yr Adolygiad o Wasanaethau Treftadaeth

Gan bwy: Christopher Catling

Adran 3: Materion “byw” a materion sy’n gofyn am benderfyniadau

3.1 Cynllun Strategol 2017-2020

- **Cyflwynodd** yr Ysgrifennydd y Cynllun Strategol drafft a gofynnodd a oedd yn nodi’r gwerthoedd cywir a’r mathau o weithgareddau sy’n llifo ohonynt, ac a fyddai o gymorth wrth wneud penderfyniadau.
- **Nododd** y Comisiynwyr ei bod hi’n bwysig i ni bwysleisio ein bod ni’n sefydliad cenedlaethol a sicrhau bod gennym bresenoldeb ym mhob rhan o Gymru yn ogystal ag y tu hwnt i Gymru.
- **Nododd** y Comisiynwyr y nod mwy ymarferol o weithio’n effeithiol, effeithlon ac agored.
- **Nododd** y Comisiynwyr y bydd y Cynllun Strategol yn sylfaen i’n strategaeth codi arian.
- **Nododd** y Comisiynwyr nad yw’r Cynllun Corfforaethol wedi’i gomisiynu’n ffurfiol eto gan mai dim ond yn ddiweddar y cyhoeddwyd y Rhaglen Lywodraethu.
- **Cytunodd** y Comisiynwyr y byddai’r Ysgrifennydd yn ailysgrifennu’r Cynllun drafft erbyn diwedd y flwyddyn galendr gan ymgorffori adborth y Comisiynwyr, ac yn ei ailddosbarthu.

Gweithredu: Ailysgrifennu’r Cynllun Strategol Drafft erbyn 31 Rhagfyr 2016

Gan bwy: Christopher Catling

3.2 Statws elusennol

- **Cymeradwyodd** y Comisiynwyr gynnwys y papur Statws Elusennol a **chytunasant** mai ffurfio Sefydliad Corfforedig Elusennol (SCE/CIO) yw’r ffordd gywir ymlaen.
- **Cytunodd** y Comisiynwyr fod y Cyfansoddiad SCE drafft diweddaraf hwn yn adlewyrchu’r holl sylwadau’n gywir.

- **Cytunodd** y Comisiynwyr y byddai'r Ysgrifennydd yn awr yn ysgrifennu'n ffurfiol at Cadw i geisio barn cyfreithwyr Llywodraeth Cymru.

Gweithredu: Ysgrifennu at Cadw i geisio barn cyfreithwyr LIC

Gan bwy: Christopher Catling

3.3 Safonau Iaith Gymraeg

- **Nododd** y Comisiynwyr i ni dderbyn ein Hysbysiad Cydymffurfio ar 25 Gorffennaf 2016 ynghyd â dyddiadau gosod o 25 Ionawr a 25 Gorffennaf 2017. Lluniwyd Cynllun Gweithredu i weithredu'r Safonau.
- **Nododd** y Comisiynwyr fod y Comisiwn, fel y trafodwyd yn yr Is-Bwyllgor Gwasanaethau Cyhoeddus, yn gadarnhaol iawn ynghylch y Safonau ar y cyfan ond bod rhai pryderon. Y Safon fwyaf heriol i ni yw Safon 48 mewn perthynas â Coflein, ac yn benodol y wybodaeth a welir gan y cyhoedd sy'n cael ei chymryd o'n cronfa ddata. Amcangyfrifwyd y byddai'n costio £74k y flwyddyn i gyfieithu hon (yn erbyn y Costau Rhedeg presennol o £130k). Nid oes unrhyw arian ychwanegol ar gael ar gyfer y Safonau.
- **Cymeradwyodd** y Comisiynwyr herio Safonau 48 ac, o bosibl, 32/80 (digwyddiadau ac addysg) os bydd angen ar ôl i'r gofynion gael eu hegluro.
- **Nododd** y Comisiynwyr y bydd y costau parhaus o tua £25k i gydymffurfio â'r Safonau Iaith Gymraeg yn cael effaith ar lefel ein gwaith hyd yn oed os nad oes angen cydymffurfio â Safon 48.
- **Cytunodd** y Comisiynwyr i ysgrifennu'n ffurfiol at Cadw i dynnu sylw at oblygiadau'r Safonau Iaith Gymraeg ar gyfer ein rhaglenni gwaith a'n Dangosyddion Perfformiad Allweddol os na fydd (a hyd yn oed os bydd) ein sialens yn llwyddiannus.

Gweithredu: Ysgrifennu at Cadw i dynnu sylw at oblygiadau'r SIGau ar gyfer ein rhaglenni gwaith a'n DPAion

Gan bwy: Christopher Catling

3.4 Recriwtio Comisiynwyr

- **Nododd** y Comisiynwyr fod tair swydd Comisiynydd wedi cael eu hysbysebu ac i 21 cais gael eu derbyn erbyn y dyddiad cau o 12 Hydref 2016. Llunnir y rhestr fer ar 28 Hydref 2016 a chynhelir y cyfweiliadau ym mis Rhagfyr. Cael dyddiad cychwyn o 1 Ebrill 2017 yw'r nod.
- **Nododd** y Comisiynwyr i dri ymgeisydd gael eu cynnig y tro diwethaf i ni recriwtio Comisiynwyr (roedd dwy swydd ar gael bryd hynny) ond mai un yn unig a gliriwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet.

3.5 Y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol

Cymeradwyodd y Comisiynwyr y cynigion a ddeilliodd o drafodaeth yn y Pwyllgor Llywodraethu Corfforol, sef cadw'r enw PLIC a'r cylch gwaith fel y maent ar hyn o bryd ond grwpio'r agenda i gynrychioli gwahanol swyddogaethau'r pwyllgor: 1) Cynnydd yn erbyn Cerrig Milltir a Chyflawni; 2) Archwilio a Sicrwydd Risg; a 3) Busnes a Chyllid.

Adran 4: Materion cau

4.1 Unrhyw faterion eraill

Dim.

4.2 Dyddiadau cyfarfodydd yn y dyfodol

26^{ain} – 27^{ain} Ebrill 2017

18^{fed} – 20^{fed} Hydref 2017

4.3 Nodiadau briffio'r staff

Cytunodd y Comisiynwyr y câi'r canlynol eu cyflwyno gan y Cadeirydd a'r Ysgrifennydd i'r holl staff ar Ddydd Gwener 21 Hydref:

- Cynllun Strategol 2017-2020
- Statws elusennol
- Safonau Iaith Gymraeg
- Recriwtio Comisiynwyr
- Cylch gwaith y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol
- Enwau lleoedd hanesyddol

- Adolygiad SWISH
- CHERISH
- Gwerthfawrogiad y Comisiynwyr o adleoliad llwyddiannus
- Gwerthfawrogiad y Comisiynwyr o gyflwyniadau'r staff

Diolchodd y Cadeirydd i'r ymwelwyr a dywedodd y byddai'n mawr werthfawrogi derbyn sylwadau ganddynt am unrhyw agwedd ar y cyfarfod.